

Dydd Mawrth 7 Mai 2019 am 11:00 yn Neuadd Pater, Stryd Dimond, Doc Penfro, SA72 6DD

- **Nicola Gulley (NG)** (Arolygydd) oedd yn arwain y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad (CCG)
- **Martina Dunne (MD)** oedd yn ymateb ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ('yr Awdurdod')

1. Agor y Cyfarfod a Chyflwyniadau

Agorodd NG y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad am 11.00 a chyflwynodd ei hun fel yr Arolygydd. Cadarnhaodd NG nad oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

Cadarnhawyd bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael pe bai unrhyw un yn dymuno siarad Cymraeg.

Eglurodd yr Awdurdod y weithdrefn larwm tân.

Cadarnhaodd NG bod Swyddog Cynllunio o'r Arolygiaeth Gynllunio yn bresennol i gymryd nodyn o'r cyfarfod, a bod cydweithiwr yn bresennol i arsylwi. Gofynnodd NG i bawb oedd yn bresennol lofnodi'r rhestr bresenoldeb.

2. Diben y Cyfarfod Cyn-Gwrandawriad (CCG)

Eglurodd NG mai diben y CCG oedd esbonio a thrafod materion gweithdrefnol a gweinyddol oedd yn ymwneud â rheoli'r Archwiliad, ond nid cynnwys na rhinweddau'r Cynllun na'r sylwadau a wnaed ar y Cynllun. Mae nodiadau canllaw sy'n ymwneud â'r Archwiliad ar gael ar y wefan ac maent hefyd wedi'u hanfon at y rhai a gyflwynodd sylwadau ar y fersiwn adnau o'r Cynllun.

Cadarnhaodd NG y byddai'r nodyn ar y CCG ar gael ar y wefan ac yn llyfrgell yr Archwiliad.

3. Rôl y Swyddog Rhaglen

Cyflwynodd NG y Swyddog Rhaglen (SRh), Caroline Llewellyn (CL) ac eglurodd ei rôl a'i chyfrifoldebau. Dylai unrhyw faterion y mae'r Awdurdod neu'r cyfranogwyr yn dymuno eu codi gyda'r Arolygydd gael eu cyfeirio at y SRh.

4. Rôl yr Arolygydd

Eglurodd NG mai rôl yr Arolygydd yw ystyried a yw'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion gweithdrefnol perthnasol ac a yw'n gadarn, ac argymhell unrhyw newidiadau i'r Cynllun sydd angen eu gwneud i wneud y Cynllun yn gadarn. Caiff sylwadau a wneir gan bob parti eu hystyried, ond dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i'r tri prawf cadernid a nodir yn y [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol](#) (2015).

Dechreuodd yr Archwiliad o'r Cynllun fis Chwefror 2019 pan gafodd y Cynllun ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, a bydd yn dod i ben pan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno'r Adroddiad i'r Awdurdod.

5. Cwestiynau Gweithdrefnol i'r Awdurdod

Gofynnodd NG gyfres o gwestiynau gweithdrefnol i'r Awdurdod. Cadarnhaodd MD bod y Cynllun, ym marn yr Awdurdod:

- Wedi'i baratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol o dan Adran 64(5)(a) o Ddeddf 2004 a rheoliadau cysylltiedig,
- Yn cydymffurfio â Chynllun Rheoli yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Yn cael ei ategu gan Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Yn cydymffurfio â'r polisiau cenedlaethol a rhanbarthol
- Yn ystyried Cynllun Gofodol Cymru
- Yn cael ei ategu gan Hunanasesiad o Gadernid.

Dyweddodd NG y bydd materion gweithdrefnol yn cael eu trafod yn fanylach yn y sesiwn gyntaf o'r gwrandawriad.

6. Y sylwadau a wnaed ar y CDLI

Cadarnhaodd NG y derbyniwyd 265 o sylwadau ar y CDLI adnau oddi wrth 105 o sefydliadau ac unigolion. Hefyd derbyniwyd 26 o sylwadau ar y newidiadau ffocws a wnaed i'r CDLI oddi wrth 15 o sefydliadau ac unigolion. Ymdrinnir â'r sylwadau yn ysgrifenedig oni bai bod yr unigolion wedi nodi eu bod yn dymuno cael eu clywed neu eu bod wedi cael gwahoddiad.

Cadarnhaodd MD mai'r fersiwn o'r Cynllun sydd i'w archwilio yw'r fersiwn adnau, sydd ym marn yr Awdurdod, yn Gynllun cadarn.

Bydd unrhyw newidiadau y mae'r Awdurdod yn dymuno eu gwneud i'r Cynllun yn ystod yr Archwiliad (a elwir yn 'Newidiadau Materion sy'n Codi') yn cael eu trafod yn sesiynau'r gwrandawriad. Bydd rhestr o'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn cael ei diweddarau ar wefan yr Archwiliad.

7. Y Dull o Ystyried Sylwadau

Rhoddir yr un pwysau i sylwadau a wneir mewn sesiwn gwrandawriad a'r sylwadau a wneir yn ysgrifenedig. Dim ond y partïon hynny sy'n ceisio newidiadau penodol i'r Cynllun sydd â'r hawl i gymryd rhan yn sesiynau'r gwrandawriad. Os yw unrhyw un sydd wedi gofyn am gael ei glywed ond heb ei gynnwys ar raglen y gwrandawriad, dylai gysylltu â'r Swyddog Rhaglen. Yn yr un modd, os bydd unrhyw un yn credu ei fod wedi cael ei neilltuo i ormod, rhy ychydig neu i sesiynau anghywir, yna dylai gysylltu â'r Swyddog Rhaglen.

8. Y Weithdrefn mewn Sesiynau Gwrandawriad yr Archwiliad

Mae manylion am y modd y cynhelir sesiynau'r gwrandawriad i'w gweld yn y [Nodiadau Canllaw](#). Roedd yr Awdurdod wedi cadarnhau nad yw'n bwriadu cael cynrychiolaeth gyfreithiol. Cadarnhaodd NG y gall y rhai sy'n mynychu ddod ag eiriolwyr gyda hwy os dymunant, ond ni fydd unrhyw groesholi ac ni fydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol.

Bydd y sesiynau ar ffurf trafodaethau anffurfiol dan arweiniad yr Arolygydd, yn seiliedig ar gwestiynau a nodir mewn agenda a ddarperir ymlaen llaw. Dywedodd NG y byddai sesiynau'r gwrandawriad yn gyfarfodydd byr ond yn canolbwyntio ar y materion dan sylw ac y byddai'r sesiynau yn symud ymlaen yn effeithlon.

Cadarnhaodd yr Awdurdod bod ganddynt awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun yn ystod yr Archwiliad.

9. Rhaglen Gwrandawiaidau'r Archwiliad

Dywedodd NG bod [amserlen sesiynau'r gwrandawiad](#) wedi'i chyhoeddi ar wefan yr Archwiliad. Mae'r Arolygydd yn bwriadu cadw at y rhaglen, er efallai na fydd modd osgoi newidiadau hwyr. Bydd y SRh yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad am unrhyw newidiadau hwyr, ond cyfrifoldeb y cyfranogwyr yw sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r trefniadau diweddaraf.

Mae cyfranogwyr pob sesiwn o'r gwrandawiad wedi'u grwpio yn ôl y materion sy'n cael eu hystyried. Cadarnhaodd NG y bydd agendâu ar gael o leiaf wythnos cyn y sesiynau perthnasol. Os oes unrhyw faterion neu gwestiynau eraill y mae unrhyw un o'r cyfranogwyr yn ystyried y dylid eu cynnwys ar unrhyw un o'r agendâu, dylid cysylltu â'r Swyddog Rhaglen.

Eglurodd NG y byddai sesiynau'r gwrandawiad ar agor i'r cyhoedd i arsylwi.

10. Paratoi a Chyflwyno Deunydd Pellach

Dim ond cyfranogwyr gaiff gyflwyno datganiadau ysgrifenedig, neu os yw'r Arolygydd yn gofyn am ddatganiadau ysgrifenedig, a dylai'r datganiadau ysgrifenedig ond ymdrin â'r materion hynny a nodwyd yn agendâu'r gwrandawiad. Dylai'r datganiadau hyn fod yn fyr sy'n ymdrin â rhai neu'r cyfan o'r materion a'r cwestiynau a nodwyd yn yr agendâu drafft. Os yw'r cyfranogwyr yn bwriadu dibynnu ar sylwadau gwreiddiol a wnaed ar y Cynllun Adnau, nid oes angen cyflwyno datganiad ysgrifenedig pellach. Rhowch wybod i'r SRh os yw hyn yn wir.

Eglurodd NG na fyddai angen i'r Awdurdod ddyblygu gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes i'r Archwiliad, a digon fyddai cyfeirio at deitl y ddogfen, rhif y dudalen a rhif y paragraff.

Mae rhagor o fanylion am y cynnwys a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau wedi'u nodi yn y Nodiadau Canllaw. Mae'n annhebygol y derbynnir cyflwyniadau hwyr ar y diwrnod.

11. Y Wybodaeth fydd ar gael

Bydd y SRh yn cynnal Llyfrgell yr Archwiliad sydd ar gael ar-lein, a gellir cael golwg ar gopïau caled drwy apwyntiad gyda'r SRh. Rhaid cynnwys unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt mewn datganiadau ysgrifenedig yn Llyfrgell yr Archwiliad. Os ydynt ar goll, rhowch wybod i'r SRh.

12. Trefniadau Ymweliadau Safle

Bydd yr Arolygydd yn cynnal taith o amgylch yr ardal, gan gynnwys ymweliadau safle â lleoedd y cyfeirir atynt yn y sylwadau, ar ei phen ei hun. Os oes rhesymau penodol dros ymweld yng nghwmni rhywun arall, dylai'r cyfranogwyr drafod hyn gyda'r SRh.

13. Cau'r Archwiliad

Bydd yr Archwiliad yn parhau ar agor hyd nes bod adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod. Ni dderbynnir sylwadau neu dystiolaeth bellach ar ôl i sesiynau'r gwrandawiad orffen, oni bai y gofynnwyd yn benodol amdanynt. Mae unrhyw ddeunydd hwyr neu ddeunydd na ofynnwyd amdano yn debygol o gael ei ddychwelyd.

14. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygydd

Ar ôl i'r Archwiliad gau, bydd yr Arolygydd yn cyflwyno'r adroddiad gydag argymhellion rhwymol i'r Awdurdod. Ni wyddys ar hyn o bryd pryd fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno ond caiff y dyddiad tebygol ei gadarnhau ar ddiwedd sesiynau'r gwrandawriad. Bydd yr argymhellion yn rhwymol ac ni fydd gan yr Awdurdod unrhyw ddewis ond eu mabwysiadu.

15. Sesiwn Holi ac Ateb

Gofynnodd NG i'r mynychwyr godi unrhyw gwestiynau ynglŷn â gweinyddu'r Archwiliad.

Harry Gardiner (Cymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod) - mae gen i le yn un o sesiynau'r gwrandawriad, beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno cwestiwn?

NG - Mae'r nodiadau canllaw yn amlinellu'r broses ar gyfer cyflwyno deunydd ychwanegol, a rhaid cyflwyno unrhyw beth sy'n ysgrifenedig bythefnos cyn sesiwn y gwrandawriad.

John Pattenden (Saundersfoot) - A fydd cofnod o'r cyfarfod hwn?

NG - Bydd, bydd nodyn o'r cyfarfod ar gael yn llyfrgell yr archwiliad ac ar y wefan.

Mary Sinclair (YDCW) - Mae fy ngardd heb ei chynnwys yn amlen y pentref, ond nid wyf am adeiladu ar dir yr ardd.

NG – Ni allaf drafod hyn yma heddiw, a gellir trafod hyn ymhellach yn y sesiwn berthnasol o'r gwrandawriad. A ydych chi'n mynychu sesiynau'r gwrandawriad?

MS - Ydw.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach.

Cau'r Cyfarfod

Diolchodd NG i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben am 11:25am.